# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Croes Atti**

**CARTREF PRESWYL CROES ATTI
RHODFA TYWYSOG CYMRU
Y FFLINT
CH6 5JU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Croes Atti, sydd wedi'i leoli yn y Fflint, yn darparu gofal personol ar gyfer 31 o oedolion. Mae uned ddynodedig yn y gwasanaeth hefyd, sef Oak View, sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Roedd 30 o bobl yn preswylio ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cyngor Sir y Fflint yw'r darparwr cofrestredig a Mr Mark Holt yw'r unigolyn cyfrifol.

Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl yn cael eu trin mewn modd gofalgar, ag urddas a pharch, ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Siaradodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau a'r gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld ag ef yn gadarnhaol am y staff a'u dull gweithredu gofalgar ac ystyriol. Roeddent yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir a gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn rhannu newidiadau o ran iechyd yn gyflym ac yn trafod ffyrdd y gellir newid y cymorth er mwyn cefnogi unigolion ymhellach. Fodd bynnag, mae angen gwella'r cofnod ysgrifenedig er mwyn dangos tystiolaeth lawn o'r dull gweithredu hwn. Mae angen gwneud gwelliannau hefyd mewn perthynas â chofnodion eraill yn y gwasanaeth. Ar ei ffurf bresennol, mae'r rhaglen hyfforddiant yn aneglur ac mae'r manylion sydd wedi'u dogfennu yn ymwneud â hyfforddiant craidd yn hytrach na hyfforddiant a all gefnogi meysydd ymarfer penodol. Mae angen archwilio ffeiliau'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a dylai fod yn hawdd cael gafael ar gofnodion i ddangos bod yr amgylchedd a'r cyfarpar yn cael eu gwirio. Trafodwyd y meysydd i'w gwella â'r unigolyn cyfrifol, sydd wedi darparu manylion am y camau gweithredu a gymerwyd a'r rhai a gynigir.

### 2. Gwelliannau

Cafodd y cartref ei ailgofrestru yn ddiweddar o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a hwn oedd arolygiad cyntaf y cartref o dan y ddeddfwriaeth newydd. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried fel rhan o'r arolygiad nesaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran 5.2 o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r meysydd lle gall y gwasanaeth wella a'r meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Hyfforddi staff
Rheoli cofnodion

- Dylid cwblhau cofnodion gofal personol a siartiau ategol yn llawn i adlewyrchu'r gofal a'r cymorth gwirioneddol y mae'r bobl wedi'u cael.
- Dylai cofnodion asesu a chynlluniau personol gynnwys cydsyniad wedi'i lofnodi.
- Dylid gofyn am adolygiadau chwe misol o feddyginiaethau.
- Dylai'r drws blaen fod yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod.
- Dylai tystiolaeth o wiriadau a threfniadau i wasanaethu cyfarpar fod ar gael.
- Dylid parhau i adolygu'r datganiad o ddiben er mwyn dangos sefyllfa'r darparwr mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.
- Dylai polisïau a gweithdrefnau fod ar gael i'r staff gael gafael arnynt yn hawdd.
- Dylai'r rhaglen hyfforddiant fod yn glir a dangos tystiolaeth o'r hyfforddiant a roddir i'r staff.
- Dylai hyfforddiant ar gyfer anghenion penodol fod ar gael i bob aelod o'r staff.
- Dylid cwblhau archwiliad o ffeiliau'r staff.

Dylid anfon adroddiad cynnydd cyfredol o'r camau gweithredu a gymerwyd i AGC er mwyn darparu manylion am y gwelliannau sy'n cael eu gwneud.

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Cynigir cynhesrwydd, anogaeth a chymorth emosiynol i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn ystod eu gofal o ddydd i ddydd. Wrth arsylwi ar ymarfer y staff, gwelwyd eu bod yn deall pob person a bod y cymorth a roddwyd wedi'i deilwra at y person hwnnw. Roedd rhyngweithio cadarnhaol yn amlwg rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r bobl ar ôl cwblhau tasgau gofal personol. Roedd pob unigolyn yn croesawu hyn. Roedd agwedd y staff at bob unigolyn yn wahanol, gan ddangos eu bod yn cydnabod natur unigol y bobl. Roedd y preswylwyr a'u perthnasau yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y staff ac yn teimlo eu bod yn unol â'u dymuniadau. Dywedodd un perthynas '*staff support my relative and their independence to the best of their abilities, they don't de-skill them so they won't lose their abilities'*. Roedd anghenion emosiynol unigolion yn cael eu diwallu mewn ffordd gadarnhaol, yn enwedig pan oeddent yn ofidus, a dangoswyd tosturi a pharch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd. Dywedodd un perthynas wrthym fod y staff wedi cymryd amser i ddeall yr aelod o'i deulu a'u bod bellach yn deall pa sbardunau a all newid ei ymddygiad ac yn gweithredu'n gyflym i leihau gofid yr unigolyn, *'they understand her ways'*. Cafodd hyn ei gefnogi gan berthynas arall a ddisgrifiodd sut roedd y staff yn lleihau gorbryder yr aelod o'i deulu, a oedd yn tawelu'r unigolyn ac yn rhoi sicrwydd i'r berthynas fod yr aelod o'i deulu yn cael gofal da. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch a chaiff y gofal a'r cymorth eu teilwra at yr unigolyn.

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn teimlo'n ddiogel ond mae angen gwella'r broses o reoli cofnodion er mwyn dangos bod y bobl yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd y preswylwyr a'u perthnasau yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir ac roedd y gofal yn tawelu eu meddyliau. Roedd y staff yn gallu esbonio pam roedd yn rhaid gwneud newidiadau i'r cymorth a'n cyfeirio at gofnodion ychwanegol a fyddai'n cefnogi eu sylwadau, ond nid oedd pob cynllun personol yn adlewyrchu'r cymorth a oedd ei angen yn llawn na'r rhesymeg dros y newidiadau i'r cymorth. Roedd y staff yn cael hyfforddiant gorfodol, ond nid oedd y cofnodion yn dangos tystiolaeth lawn o unrhyw hyfforddiant a oedd yn benodol i'r amrywiaeth o anghenion a oedd yn cael eu cefnogi. Roedd diffyg gwybodaeth ofynnol yn ffeiliau'r staff ac nid oedd y cofnodion gwasanaeth wedi'u lleoli ar y safle. Mae'n rhaid adolygu cofnodion hyfforddiant a recriwtio'r staff er mwyn dangos bod y staff yn addas. Nid yw'r ffordd y rheolir y cofnodion yn dangos tystiolaeth lawn bod prosesau ar waith er mwyn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys nodweddion sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Roedd digon o le yn y cartref ac roedd yn rhoi rhyddid i'r bobl symud rhwng ardaloedd cymunedol. Roedd yr ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli, ond roedd angen rhoi rhagor o sylw i ardaloedd er mwyn helpu'r bobl sy'n byw gyda dementia i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas a hybu hynny.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Darperir gofal a chymorth mewn modd urddasol a pharchus, ond mae'n rhaid datblygu cofnodion gofal personol ymhellach er mwyn sicrhau bod tystiolaeth glir o'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Roedd asesiadau cyn derbyn yn cael eu cwblhau a chadarnhawyd hyn mewn sgwrs â phreswylydd a dau berthynas, a ddywedodd wrthym eu bod wedi ymweld â'r gwasanaeth a'u bod wedi clywed popeth amdano. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o gynlluniau personol ac roedd y rhai ar gyfer preswylwyr parhaol yn cynnwys proffiliau un dudalen, ac yn darparu manylion am yr holl agweddau ar y gofal a'r cymorth roedd eu hangen er mwyn cynorthwyo'r unigolyn, yn ogystal â'r adolygiadau a gynhaliwyd. Cadarnhaodd preswylydd a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses, ond wrth edrych ar sampl o asesiadau a chynlluniau, nodwyd gennym nad oedd pob un yn dangos tystiolaeth o gytundeb wedi'i lofnodi gan yr unigolyn. Mae'n rhaid cymryd gofal i ddangos tystiolaeth bod y bobl wedi cael eu cynnwys. Gwnaethom nodi, mewn ffeil unigolyn a oedd wedi bod yn cael gofal byrdymor ers mis Hydref 2019, nad oedd unrhyw gynllun ar gael. Dywedwyd wrthym fod cynllun cymorth ystafell wely wedi cael ei ddatblygu a oedd yn cynnwys trosolwg o'r cymorth roedd ei angen nes y llunnir y cynllun llawn, ond nid oedd y cynllun ei hun ar waith. Dylai cynllun llawn fod ar gael o fewn saith diwrnod i rywun gael ei dderbyn. Roedd meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol ac roedd cynllun cymorth, i gynorthwyo'r unigolyn, wedi'i gynnwys mewn ffeiliau. Roedd tystiolaeth i ddangos bod adolygiadau'n cael eu cwblhau, ond nid ar adegau ffurfiol.  Dywedodd dau berthynas wrthym fod y staff wedi trafod meddyginiaeth yr aelod o'u teulu â nhw a'u bod wedi egluro pam roedd angen gwneud y newidiadau, yn ogystal â chanlyniad yr adolygiad. Gwelsom sampl o'r siartiau cymorth. Roedd manylion un siart ail-leoli yn ddryslyd, nid oedd y dyddiadau wedi'u cynnwys bob amser, nid oedd amlder penodol o ran yr amseroedd ail-leoli ac nid oedd y siartiau i ddogfennu pryd roedd eliau wedi cael eu defnyddio, neu pryd roedd gofal iechyd y geg wedi cael ei fonitro, wedi cael eu cwblhau'n llawn. Rhaid i gynlluniau personol gynnwys digon o fanylion i hysbysu'r staff a'u galluogi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion. Heb y wybodaeth hon, ni all y staff fod yn ymatebol nac yn rhagweithiol wrth nodi a lliniaru risgiau.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos cyfranogiad meddygon teulu, nyrsys ardal a nyrsys seiciatrig cymunedol ac roedd y cynlluniau personol yn dangos pryd roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, ni welsom gofnod ar wahân bob amser yn nodi'r camau gweithredu penodol neu'r canllawiau a bennwyd. Wrth ddarllen un cynllun, roedd y staff wedi cofnodi eu bod wedi sylwi ar glais ac roedd tystiolaeth i ddangos bod y staff yn monitro'r rhan hon. Eglurodd y dirprwy fod y meddyg teulu wedi ymweld â'r gwasanaeth a bod y clais wedi cael ei achosi gan feddyginiaeth, gan arwain at ei adolygu, ond nid oedd unrhyw gofnod o'r drafodaeth â'r meddyg teulu. Dywedodd un gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym *'staff are wonderful with patients. Always communicate with us any concerns and will ask for advice. Care is provided to an*

*excellent standard from start to the patient's end of life*'. Mae angen gwella'r cofnodion er mwyn dangos bod y bobl yn cael y gofal priodol ar yr adeg briodol.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn dawel eu meddwl, ond mae angen datblygu'r systemau i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r bobl yn cael eu diogelu. Roedd un cais am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi'i gwblhau'n llawn a'i awdurdodi. Roedd ceisiadau eraill wedi'u cwblhau ond nad oeddent eto wedi'u hawdurdodi ac roedd angen adnewyddu llawer ohonynt. Roedd y rheolwr wedi cysylltu â'r awdurdod lleol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ond nid oedd y broses hon yn un ffurfiol. Dylid adolygu'r ceisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol a dylid gwneud ceisiadau newydd yn ôl yr angen. Mae'r bobl yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn eu bywyd beunyddiol a phan fo iechyd meddwl yn cyfyngu ar y gallu i wneud y penderfyniadau hyn, gwelwyd awgrymiadau ar lafar yn cael eu defnyddio. Pan oedd angen gwneud penderfyniadau pwysicach, ymgynghorwyd â gweithwyr iechyd proffesiynol a pherthnasau er mwyn trafod ffyrdd o ystyried buddiannau pennaf yr unigolyn. Roedd proses adolygu ansawdd y darparwr yn ymgysylltu â'r bobl mewn ffyrdd amrywiol er mwyn casglu eu barn am weithrediad y gwasanaeth. Mae gan y preswylwyr deuluoedd neu ffrindiau sy'n siarad ar eu rhan a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi pryderon a'u bod yn hyderus yr ymdrinnir â nhw. Roedd adolygiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynnig cyfleoedd pellach i'r bobl godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Ar y cyfan, mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a rhoi cyfle iddynt fynegi barn.

Mae'r staff yn parchu natur unigol y bobl ac yn darparu cymorth ag urddas. Roedd y Darparwr wedi ennill y safon efydd ac roedd yn gweithio tuag at gwblhau lefel arian 'Cynnydd i Ddarparwyr'. Mae hon yn wobr a gafodd ei datblygu gan yr awdurdod lleol, sy'n cydnabod pwysigrwydd darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person, gan alluogi'r bobl i dderbyn gofal a chymorth yn unol â'u dymuniadau ac i ddod o hyd i ffyrdd o wella meysydd nad ydynt yn effeithiol. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r cymorth roedd ei angen ar yr unigolion a sut roedd yn cael ei ddarparu. Gwnaethom arsylwi ar nifer o achlysuron pan wnaeth y staff ryngweithio'n gadarnhaol â'r bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom y staff yn cymryd amser i helpu â meddyginiaeth a gwnaethom sylwi ar y staff yn bwyta eu prydau bwyd eu hunain gyda'r preswylwyr, a oedd yn rhoi cyfle iddynt arsylwi ar y bobl, eu cynorthwyo a'u hannog mewn modd diffwdan. Dywedodd un perthynas fod y staff yn *'excellent'* a dywedodd un arall eu bod yn '*brilliant'*. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n cymryd yr amser i wrando ac i ddeall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol.

Ar y cyfan, mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth o'r anghenion a nodwyd ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Caiff gwybodaeth ei rhannu ar lafar ond nid yw'r cofnodion ysgrifenedig bob amser yn dangos tystiolaeth o'r ddealltwriaeth hon. Gellir camddehongli gwybodaeth ar lafar. Dylid cadw cofnodion ysgrifenedig cynhwysfawr er mwyn darparu cyfeiriad clir i'r staff wrth ddarparu gofal a chymorth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Pan wnaethom gyrraedd, nid oedd y drws blaen i'r gwasanaeth wedi'i gloi a gallem fynd i mewn yn hawdd, gan gynyddu'r risg o fynediad heb awdurdod. Rydym yn argymell y dylid adolygu diogelwch y fynedfa. Roedd llety yn cael ei gynnig ar un llawr. Roedd un ochr o'r adeilad yn cefnogi'r bobl roedd angen cymorth arnynt gyda gofal personol ac roedd y llall yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Nodwyd bod y ddwy ardal yn lân. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd amserlen lanhau benodol ar waith. Roedd un ystafell yn ystafell smygu ddynodedig ac, er bod gwyntyll echdynnu ar waith, nid oedd hyn yn gwaredu'r arogl yn effeithiol. Dylid ymdrin â hyn. Gellid atgyfnerthu'r systemau sydd ar waith i fonitro safonau domestig ymhellach er mwyn sicrhau diogelwch a chysur y bobl.

Mae'r coridorau yn llydan ac yn olau, gan alluogi'r bobl i symud o gwmpas yn ddirwystr. Byddai ychwanegu awgrymiadau gweledol megis cynlluniau lliw neu arwyddion yn helpu'r bobl i gyfeiriadu. Roedd nifer o ardaloedd cymunedol, a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r bobl ddod o hyd i fan tawel neu gymdeithasu. Roedd mathau gwahanol o seddi a oedd yn cynnig dewis a chysur a oedd yn addas i bobl â gwahanol alluoedd. Roedd yr ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli i raddau amrywiol ac roeddent yn seiliedig ar ddewisiadau unigol y bobl. Anogwyd y bobl i ddod ag eiddo personol a darnau o ddodrefn i bersonoli eu hystafell, ond nodwyd gennym nad oedd modd gwahaniaethu rhwng drws un ystafell wely a'r llall yn hawdd. Gwelsom y bobl yn defnyddio pob ardal gymunedol yn y cartref ac roedd y cynllun yn hybu annibyniaeth, gan olygu bod y bobl yn gallu mynd o gwmpas yn annibynnol. Fodd bynnag, nid oedd yr ystafelloedd ymolchi na'r toiledau wedi'u nodi'n glir, ac nid oedd hyn yn helpu'r bobl i gyfeiriadu. Roedd y cartref wedi'i addurno i safon dda ond dylid rhoi rhagor o sylw i'r defnydd o awgrymiadau gweledol ac arwyddion er mwyn helpu'r unigolion i gyfeiriadu.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i wasanaethu cyfarpar a monitro'r amgylchedd. Dylai cofnodion i ddangos bod y cyfarpar yn ddiogel a bod gwiriadau penodol wedi cael eu gwneud fod ar gael ar y safle. Dangosodd y cofnodion a welwyd nad oedd y trefniadau i wasanaethu cyfarpar megis teclynnau codi yn gyfredol ac nad oedd yr asesiad risg tân a oedd ar gael i'w weld o fewn ei ddyddiad. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, a eglurodd fod adran cynnal a chadw'r awdurdod lleol yn cwblhau gwiriadau a bod y wybodaeth yn cael ei chadw yn y brif swyddfa. Dylai cofnodion fod ar gael ar y safle hefyd i ddangos tystiolaeth bod y gwiriadau wedi cael eu cynnal a pha mor aml roedd hynny'n digwydd. Gwelsom gofnodion tân a gadarnhaodd fod y gwasanaeth blynyddol wedi cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2019 a bod y larymau tân yn cael eu gwirio bob wythnos, gyda chofnod yn cael ei gadw. Roedd Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o allu pob unigolyn i adael y cartref pe bai angen mewn argyfwng. Roedd cyfarpar yn cael ei ddefnyddio i leihau'r risgiau i ddiogelwch yr unigolion. Mae'r nyrsys ardal yn cwblhau

asesiadau i benderfynu a oes angen gosod rheiliau gwely ac roedd un ohonynt yn ymweld ar y diwrnod i asesu un unigolyn. Roedd synwyryddion ar waith mewn rhai ystafelloedd a oedd yn rhoi gwybod i'r staff am symudiadau'r bobl a oedd mewn perygl o gwympo. Roedd diogelwch, cyflwr a defnydd y tir yn cael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen cynnal a chadw. Roedd ardal batio ddiogel a oedd yn cynnwys gwelyau blodau uchel ac ardal eistedd dan do lle gallai'r bobl eistedd a mwynhau'r gerddi. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant, ond gellid gwella'r amgylchedd ymhellach er mwyn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl a dangos bod risgiau diangen yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael. Wrth gyfeirio at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, nododd *'Croes Atti is working towards the Active Offer. There are currently a number of care assistants who are fluent in Welsh.*' Gellid cyfieithu dogfennaeth i'r Gymraeg ac roedd cyrsiau Cymraeg ar gael drwy raglen hyfforddiant y darparwr. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff ond nid oeddent yn cynnwys hyfforddiant iaith Gymraeg. Ar adeg yr arolygiad, Saesneg oedd prif iaith y cartref gofal (nid oedd unrhyw un o'r grŵp preswyl yn siarad Cymraeg a dim ond un aelod o'r staff oedd yn siarad Cymraeg). Nid yw peidio â darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn effeithio'n negyddol ar y grŵp preswyl presennol. Fodd bynnag, dylid adolygu'r datganiad o ddiben i alluogi darpar breswylwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am allu'r gwasanaeth i ddiwallu eu hanghenion ieithyddol unigol yn ddigonol.

Dylai'r darparwr sicrhau y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni. Nid oedd y rhaglen hyfforddiant yn glir ac roedd yn anodd ei deall heb gymorth. Eglurodd y dirprwy fod y rhestr yn ymwneud â'r hyfforddiant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn bresennol, a bod y dyddiadau a oedd wedi'u dogfennu yn dangos yr hyfforddiant gloywi a gwblhawyd neu'r dyddiad pan na fyddai'r hyfforddiant yn ddilys mwyach. Argymhellir y dylid adolygu'r dull o gofnodi hyfforddiant er mwyn sicrhau eglurder a dangos tystiolaeth o'r hyfforddiant roedd y staff wedi'i gwblhau. Nodwyd gennym fod yr hyfforddiant a oedd wedi'i restru yn orfodol, megis codi a chario a chymorth cyntaf, ond nad oedd hyfforddiant i reoli'r amrywiaeth o anghenion megis hyfywedd meinwe, dementia sy'n dechrau'n gynnar ac epilepsi wedi'i gynnwys. Mae'n bwysig bod gan yr holl staff ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r anghenion iechyd y mae angen iddynt eu cefnogi. Roedd ffeiliau'r staff a welsom yn dangos bod rhai cyrsiau wedi cael eu dilyn, ond roedd y pynciau ym mhob ffeil yn amrywio. Trafodwyd hyn â'r rheolwr rhanbarthol ar y diwrnod, a ddarparodd dystiolaeth i ni o'r cyrsiau hyfforddiant ychwanegol a oedd ar gael. Gwnaethom drafod hyn hefyd â'r unigolyn cyfrifol, a gadarnhaodd, pe na bai cyrsiau gofynnol ar gael, y byddai modd cael gafael ar y rhain yn allanol. Dywedodd yr ymdrinnir â hyn. Mae'r diffyg hyfforddiant i gefnogi pob angen a aseswyd yn mynd yn groes i'r rheoliadau. Gan fod camau gweithredu'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion, nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno, ond bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae'n rhaid i'r cofnodion sy'n gysylltiedig â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, y staff a'r amgylchedd fod ar gael ac yn gyfredol, a rhaid bod trefn dda arnynt. Gwelsom feysydd ymarfer y gellid eu gwella. Roedd cynnwys ffeiliau'r staff yn amrywio ac roedd darn o wybodaeth ofynnol yn absennol ym mhob un a welwyd. Nid oedd cofnodion gwasanaeth ar gael ar y safle ac nid oedd y ffeil ar gyfer polisïau a gweithdrefnau wedi cael ei hadolygu ers peth amser. Roedd siartiau'n anghyflawn ac roedd angen gwybodaeth ychwanegol ar gynlluniau personol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a ddarperir

yn llawn. Mae hyn yn mynd yn groes i'r rheoliadau gan fod yn rhaid i gofnodion fod ar gael ar y safle i ddangos tystiolaeth bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol. Ni roddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am fod y darparwr yn cymryd camau i unioni'r sefyllfa.

Gwnaethom drafod ein canfyddiadau â'r rheolwr ardal ar ddiwrnod yr ymweliad. Dangoswyd i ni ble gellid lawrlwytho polisïau a gweithdrefnau ac roedd y rhain yn gyfredol. Rydym yn argymell y dylai'r holl bolisïau a gweithdrefnau, sy'n berthnasol i ymarfer yn y gwasanaeth, fod ar gael ar ffurf copi caled er mwyn sicrhau y gall y staff gael gafael ar y wybodaeth yn hawdd fel y bo'i hangen. Gwnaethom edrych ar adolygiad o ansawdd gofal yr unigolyn cyfrifol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019, a ddangosodd fod barn y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wedi cael ei chasglu. Nodwyd gennym fod y meysydd y gwelsom fod angen eu gwella yn cyfateb i'r meysydd a nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, ni fyddai camau dilynol yn cael eu cymryd ynghylch y meysydd tan yr adolygiad nesaf, a fyddai'n dechrau ym mis Mawrth. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, a gadarnhaodd fod y broses fonitro wedi cael ei hadolygu bellach ac y byddai'r meysydd y nodwyd eu bod yn rhan o'i adolygiad yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu. Yna byddai'r cynllun hwn yn cael ei fonitro yn ystod ymweliad misol y rheolwr ardal a byddai'n rhoi cyfarwyddyd ar gyfer sail yr adolygiad o ansawdd nesaf. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod prif swyddfa'r darparwr yn cadw manylion am wiriadau a threfniadau gwasanaethu cyfarpar a manylion recriwtio llawn am bob aelod o'r staff. Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai ffeiliau'r staff yn cael eu harchwilio ac y byddai system i sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar y safle yn cael ei hystyried. Caiff hyn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd yn dangos ymrwymiad y darparwr i sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym wedi rhoi gwybod i Gyngor Sir y Fflint fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â datblygu staff (rheoliad 36 (2) (d)) gan fod yn rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl. Nid ydym wedi rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar adeg yr arolygiad ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y materion eu hystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi rhoi gwybod i Gyngor Sir y Fflint fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli cofnodion (Rheoliad 59) am nad oedd y cofnodion a oedd yn cael eu cadw ar y safle yn gyfredol a bod y cofnodion manwl llawn yn cael eu cadw ym mhrif swyddfa'r darparwr. Nid ydym wedi rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar adeg yr arolygiad ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y materion eu hystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

- Dylid cwblhau cofnodion gofal personol a siartiau ategol yn llawn i adlewyrchu'r gofal a'r cymorth gwirioneddol y mae'r bobl wedi'u cael.
- Dylai cofnodion asesu a chynlluniau personol gynnwys cydsyniad wedi'i lofnodi.
- Dylid gofyn am adolygiadau chwe misol o feddyginiaethau.
- Dylai'r drws blaen fod yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod.
- Dylai tystiolaeth o wiriadau a threfniadau i wasanaethu cyfarpar fod ar gael.
- Dylid parhau i adolygu'r datganiad o ddiben er mwyn dangos sefyllfa'r darparwr mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.
- Dylai polisïau a gweithdrefnau fod ar gael i'r staff gael gafael arnynt yn hawdd.
- Dylai'r rhaglen hyfforddiant fod yn glir a dangos tystiolaeth o'r hyfforddiant a roddir i'r staff.
- Dylai hyfforddiant ar gyfer anghenion penodol fod ar gael i bob aelod o'r staff.
- Dylid cwblhau archwiliad o ffeiliau'r staff.

Dylid anfon adroddiad cynnydd cyfredol o'r camau gweithredu a gymerwyd i AGC er mwyn darparu manylion am y gwelliannau sy'n cael eu gwneud.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Cwblhawyd yr arolygiad fel rhan o'n rhaglen arolygu.

Gwnaethom ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gynnal arolygiad dirybudd ar 15 Ionawr 2020 rhwng 8.45am a 6.30pm. Roedd hwn yn arolygiad llawn, wedi'i drefnu, a oedd yn adolygu pob un o'r pedair thema ansawdd. Yn ogystal, cawsom wybod am bryderon a oedd yn codi materion ynghylch y gofal a'r cymorth a ddarperir a chafodd y rhain eu hystyried yn ystod y broses arolygu.

Roedd ein canfyddiadau yn seiliedig ar y canlynol:

- Arsylwi ar y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Defnyddiwyd yr adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i ffurfioli'r arsylwadau. Gyda'r adnodd hwn, gallwn gofnodi bywyd o safbwynt yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth; sut mae'n treulio ei amser, gweithgareddau, rhyngweithio ag eraill a'r math o gymorth a roddir.
- Sgyrsiau â phedwar unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth, y gweithiwr domestig, gweinyddwr, triniwr gwallt, dau uwch-weithiwr gofal a'r dirprwy.
- Adolygu'r wybodaeth a ddelir gan AGC am y gwasanaeth gan gynnwys y Datganiad o Ddiben.
- Edrych ar yr ardaloedd cymunedol a detholiad o ystafelloedd gwely.
- Darllen pum cynllun personol.
- Darllen ffeiliau tri aelod o'r staff a'r rhaglen hyfforddi staff.
- Darllen Adolygiad o Ansawdd Gofal y Darparwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019

Gwnaethom gwblhau adnodd asesu amgylcheddol King's Fund gyda'r dirprwy, sef adnodd a gydnabyddir yn genedlaethol a ddatblygwyd er mwyn casglu arferion gorau wrth greu amgylchedd gofal cefnogol i bobl sy'n byw gyda dementia.

Cwblhawyd holiaduron gan dri aelod o'r staff a gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld a gwnaethom siarad â phedwar perthynas dros y ffôn yn dilyn yr arolygiad. Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad.

Rhoddwyd adborth i'r dirprwy a'r rheolwr ardal yn ystod yr arolygiad, ac i'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn yn dilyn yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cyngor Sir y Fflint** |
| **Gwasanaeth Cofrestredig** | **Croes Atti** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Mark Holt** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **31** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.** |
| **Dyddiad yr ymweliad Arolygu hwn** | **15/01/2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nac ydy** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:**<br><br>**Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/03/2020